Dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar ‘Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026-30’

Adroddiad terfynol

Ysgrifennwyd gan Emma Preece a Rhodri Bowen

Mehefin 2026

CMC @Loudoun

Stryd Bute

Caerdydd

CF10 5HW

Ebost / Email: sarah.lloyd-jones@peopleandwork.org.uk

Cynnwys

Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn 3

1. Cyflwyniad 4

2. Methodoleg 5

3. Dadansoddiad o gwestiynau'r ymgynghoriad 7

4. Crynodeb o adroddiad Plant yng Nghymru ar ymgynghori ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc 31

5. Ymateb y Mentoriaid Cymunedol 41

6. Argymhellion gan yr ymatebwyr 51

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr a roddodd gydsyniad i'w manylion gael eu cyhoeddi, wedi'i threfnu yn nhrefn yr wyddor yn ôl y sefydliadau, y lleoliadau neu'r proffesiynau y maent yn eu cynrychioli.* 58

Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Acronym	Ystyr
CAA	Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CADY	Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
CSP	Cymdeithas Seicolegol Prydain
ADI	Anhwylder Datblygu Iaith
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
RCSLT	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
LlIC	Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
ALlICh	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
ThILl	Therapi Iaith a Lleferydd
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Cyflwyniad

1.1. Mae ‘Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026–30’ yn adeiladu ar y cynllun cyflawni gwreiddiol ‘Siarad Gyda Fi’ (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020) i hyrwyddo datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru. Mae'r cynllun yn ceisio cryfhau gwaith presennol, cyflwyno camau gweithredu newydd ac ymestyn y ffocws y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar i gynnwys plant 5 i 11 oed.

1.2. Casglodd yr ymgynghoriad adborth ar y dull arfaethedig o godi ymwybyddiaeth o leferydd, iaith a chyfathrebu, gwella'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, cryfhau cymorth i blant a theuluoedd, datblygu'r gweithlu, ac ymgorffori cymorth ataliol ledled Cymru. Gwahoddodd hefyd farn ar yr enw a'r brandio, y Gymraeg, hawliau plant, ac unrhyw gamau gweithredu neu amcanion ychwanegol y dylid eu hystyried. Roedd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad a fersiwn i blant a phobl ifanc ar gael hefyd i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddeall y cynigion a rhannu eu barn[1]. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion oedd 30 Ebrill 2026. Cymerodd cyfanswm o 91 o sefydliadau, gweithwyr proffesiynol a rhieni ran.

1.3. Yn ogystal â hyn, comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â phlant 5 i 11 oed ar Gynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi Cam 2, gan drafod eu barn ar gyfathrebu, rhwystrau, cymorth a brandio. Cymerodd cyfanswm o 98 o blant a phobl ifanc 6 i 11 oed ran mewn sesiynau.

1.4. At hynny, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, cafwyd cyflwyniad cyfunol gan naw Mentor Cymunedol, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

[1] https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cam-2-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu-2026-i-2030

2. Methodoleg

Dadansoddiad o gwestiynau'r ymgynghoriad

2.1. Cafodd yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad yn adran tri eu dadansoddi gan ddefnyddio dull thematig. Cafodd ymatebion i gwestiynau caeedig eu crynhoi'n feintiol. Atebodd rhwng 82 a 91 o ymatebwyr bob un o'r cwestiynau caeedig.

2.2. Cafodd sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiynau agored eu codio a'u dadansoddi i nodi themâu allweddol, meysydd consensws a phwyntiau gwahaniaeth. Mae dyfyniadau darluniadol wedi'u cynnwys lle y bo'n briodol, er bod y nifer wedi'i gyfyngu i gefnogi darllenadwyedd a hyd cyffredinol yr adroddiad. Roedd dewis dyfyniadau dangosol yn heriol hefyd oherwydd bod ymatebion yn aml yn adlewyrchu gwahaniaethau cynnil. Rhoddodd rhwng 45 a 72 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig ar gyfer pob cwestiwn agored.

2.3. Dangosir proffil ymateb o ymatebwyr o ran sefydliadau, lleoliadau a phroffesiynau yn nhabl 3.1 ac mae Atodiad A yn darparu rhestr o sefydliadau a roddodd ganiatâd i'w manylion gael eu cyhoeddi.

2.4. Yn gyffredinol, nid yw canrannau yn cael eu hadrodd lle mae llai na 100 o ymatebwyr i gwestiwn gan y gall arwain at gamddehongli. Fodd bynnag, gan fod nifer yr ymatebwyr yn agos at 100 yn yr achos hwn (rhwng 82-91), rydym wedi cynnwys canrannau yn adran tri er mwyn rhoi ymdeimlad cliriach i ddarllenwyr o bwysau cymharol yr ymatebion. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Ymatebion ychwanegol

2.5. Darparodd pedwar sefydliad wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i hychwanegu at y dadansoddiad o'r sylwadau ysgrifenedig sy'n ymwneud â chwestiynau'r ymgynghoriad (gweler paragraff 2.2).

Plant a phobl ifanc

2.6. Comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â phlant 5 i 11 oed ar Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026–2030, gan gynnwys eu barn ar gyfathrebu, yr hyn sy'n bwysig iddynt, y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, cymorth a allai helpu, a brandio'r rhaglen. Cymerodd cyfanswm o 98 o blant a phobl ifanc 6 i 11 oed ran mewn sesiynau ysgol gynradd ar draws Powys, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam a Phen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2026, gan gynrychioli amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac anghenion dysgu ychwanegol.

2.7. Darparodd Plant yng Nghymru adroddiad yn amlinellu eu dulliau a'u canfyddiadau. Yn adran pedwar rydym yn crynhoi canfyddiadau'r adroddiad hwn fel bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid darllen adroddiad Plant yng Nghymru yn llawn wrth ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad.

Mentoriaid Cymunedol

2.8. Cafodd cyflwyniad ar y cyd gan naw Mentor Cymunedol, a gyflogwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ei ddadansoddi a rhoddir crynodeb ohono yn adran pump. Ymatebodd y cyflwyniad i gwestiynau'r ymgynghoriad ar leferydd, iaith a chyfathrebu ar ffurf ysgrifenedig yn unig.

Argymhellion

2.9. Mae'r 23 o argymhellion a nodwyd gan ymatebwyr, a amlinellir yn adran chwech, wedi'u dewis yn seiliedig ar ganfyddiadau o adrannau tri, pedwar a phump.

3. Dadansoddiad o gwestiynau'r ymgynghoriad

Proffil yr ymatebwyr

3.1. Cafodd yr ymgynghoriad ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, fel y dangosir yn Nhabl 3.1 isod. Ceir rhestr o sefydliadau a roddodd gydsyniad i'w manylion gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.

3.2. Roedd nifer yr ymatebion i gwestiynau caeedig unigol (dewisiadau ticio blwch) yn amrywio o 82 i 91.

3.3. Roedd nifer yr ymatebion ysgrifenedig i bob cwestiwn yn amrywio o 45 i 72.

Tabl 3.1. Proffil cyffredinol yr ymatebwyr

Math o Randdeiliad	Enghreifftiau a Nodwyd
Gweithwyr proffesiynol addysg	Athrawon, CADYau, arweinwyr ysgolion, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg
Gweithwyr proffesiynol iechyd	Therapyddion iaith a lleferydd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr proffesiynol y GIG, gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus
Darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant	Dechrau'n Deg, ymarferwyr gofal plant, Coram PACEY Cymru
Prifysgolion	Ymchwilwyr
Sefydliadau eiriolaeth a chynrychioliadol	Llais, Cymdeithas Seicolegol Prydain (CSP)
Sefydliadau ym maes y Gymraeg a dwyieithrwydd	Sefydliadau ac ymarferwyr y Gymraeg
Arweinwyr awdurdodau lleol a gwasanaethau	Rheolwyr addysg a gwasanaethau
Rhieni a gofalwyr	Ymatebion rhieni unigol

Partneriaethau amlasiantaeth	Grwpiau ymarferwyr traws-sector

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'r datganiad - mae'r enw 'Siarad gyda fi - Cam 2' yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i gwmpasu ymestyn y gwaith hwn i blant rhwng 5 ac 11 oed. Os na, allwch chi awgrymu rhywbeth arall?

3.4. 62% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C1. Ateb	***Cyfrif***	***%***
Cytuno'n gryf	19	*21*
Cytuno	37	*41*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12	*13*
Anghytuno	16	*18*
Anghytuno'n gryf	5	*5*
Ddim yn gwybod / dim barn	*2*	*2*
Cyfanswm	**91**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 1

3.5. Rhoddodd 57 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.6. Awgrymodd sawl ymatebydd ailenwi'r rhaglen i adlewyrchu'r grŵp oedran targed yn well, er enghraifft “Siarad Gyda Fi (5–11 oed)”. Gwelwyd hyn fel ffordd o gynnal parhad â'r brand sefydledig wrth ei gwneud yn glir bod y rhaglen yn cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ar draws plentyndod. Er enghraifft:

‘Er mwyn cryfhau parhad ac osgoi dryswch posibl, efallai y bydd mwy o werth mewn nodi'n fwy penodol bod y gwaith hwn yn adeiladu ar y rhaglen Siarad Gyda Fi sefydledig ac felly byddwn yn awgrymu “Siarad Gyda Fi (5–11 oed)”. Gallai hyn helpu

i atgyfnerthu'r neges bod datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn daith barhaus ar draws plentyndod.'

3.7. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod "Siarad Gyda Fi - Cam 2" yn awgrymu parhad y rhaglen bresennol ond nodwyd efallai nad yw ymarferwyr a theuluoedd sy'n gweithio gyda phlant 5–11 oed yn gyfarwydd â'r rhaglen blynyddoedd cynnar wreiddiol. Felly, ystyriwyd y gallai'r term "Cam 2" fod yn ddryslyd, yn enwedig os yw'n awgrymu bod angen ymgysylltu â Cham 1.

3.8. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd y teitl yn glir i rieni, ysgolion ac ymarferwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r rhaglen. Gwnaeth rhai godi pryderon y gallai'r gair "siarad" awgrymu ffocws cul ar gyfathrebu geiriol, yn hytrach nag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ehangach, gan gynnwys Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen, cyfathrebu dieiriau a mathau eraill o fynegiant.

3.9. Roedd nifer fach yn teimlo bod y brandio naill ai'n rhy "blentynnaidd" i blant hŷn neu, i'r gwrthwyneb, yn rhy ffurfiol i deuluoedd.

3.10. Fodd bynnag, ar y cyfan roedd cefnogaeth gref ar gyfer cadw'r brandio "Siarad Gyda Fi", yr oedd llawer o ymatebwyr yn ei ystyried yn un cydnabyddedig, cyson a defnyddiol wrth atgyfnerthu'r neges bod cefnogi cyfathrebu plant yn gyfrifoldeb a rennir o'u genedigaeth hyd at ddiwedd yr ysgol gynradd.

Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 1) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

3.11. 87% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C2. Ateb	*Cyfrif*	*%*
Cytuno'n gryf	33	*37*
Cytuno	45	*50*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	5	*6*
Anghytuno	4	*4*
Anghytuno'n gryf	2	*2*
Ddim yn gwybod / dim barn	1	*1*
Cyfanswm	**90**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 2

3.12. Rhoddodd 53 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.13. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau ar gwestiwn 2 yn adlewyrchu'r cytundeb cyffredinol hwn ymhlith ymatebwyr. Fel y mae un ymatebydd yn nodi:

> 'Mae cryfhau dealltwriaeth y cyhoedd o leferydd, iaith a chyfathrebu a chynyddu gweledded y mater yn hanfodol o ystyried nifer uchel yr achosion o anawsterau cyfathrebu… bydd ymgyrch ymwybyddiaeth wedi'i chydlynu, fel y cynigir, yn adeiladu ar y brand Siarad Gyda Fi presennol a bydd yn helpu i sicrhau bod teuluoedd, ysgolion a chymunedau yn nodi arwyddion cynnar o angen ac yn deall sut i gefnogi datblygiad.'

3.14. Er eu bod, at ei gilydd, yn cefnogi codi ymwybyddiaeth o leferydd, iaith a chyfathrebu, pwysleisiodd llawer y dylai negeseuon ymestyn y tu hwnt i wasanaethau statudol i leoliadau cymunedol fel cyfleusterau hamdden, clybiau chwaraeon, darpariaeth ieuenctid a mannau anffurfiol eraill lle mae plant yn treulio amser. Tynnodd llawer sylw hefyd at bwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd a gofalwyr, gan gynnwys yn ystod beichiogrwydd, i feithrin dealltwriaeth o ddatblygiad iaith nodweddiadol a sut i'w gefnogi gartref.

3.15. Pwysleisiodd sawl ymatebydd y dylai codi ymwybyddiaeth fod yn glir, yn hygyrch ac yn cael ei lywio gan dystiolaeth, yn enwedig gan y gallai llawer o deuluoedd fod yn ansicr ynghylch sut beth yw datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu nodweddiadol neu ble i geisio cymorth. Fodd bynnag, pryder cyson oedd na fyddai ymwybyddiaeth yn unig yn ddigon i wella canlyniadau. Dadleuodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i ymwybyddiaeth gael ei hategu gan waith uniongyrchol gyda theuluoedd a phlant, llwybrau atgyfeirio cliriach, a dull amlasiantaeth mwy cydgysylltiedig.

3.16. Cododd yr ymatebion bryderon am effaith amser o flaen sgrin a thechnoleg ddigidol ar leferydd, iaith a chyfathrebu plant, yn y cartref ac mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu ysgol. Galwodd nifer o sylwadau am negeseuon cyhoeddus cliriach, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i deuluoedd ac ymarferwyr ynghylch sut y gall sgriniau effeithio ar lesiant plant, eu sgiliau gwrando, chwarae, rhyngweithio cymdeithasol a'u datblygiad o ran cyfathrebu, a rhai yn dadlau bod y negeseuon presennol yn rhy wanedig ac y dylent bwysleisio'n gryfach yr effaith negyddol bosibl a allai ddeillio o ddefnydd plant a rhieni o sgriniau.

3.17. Tynnodd ychydig o ymatebion sylw at fanteision posibl rhaglen lwyddiannus. Er enghraifft, nododd ymatebydd y gallai gwella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant hefyd fod o fudd i ymarferwyr drwy gefnogi gwell rheoleiddio emosiynol ac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, lleihau pwysau rheoli ystafell ddosbarth a galluogi mwy o amser ar gyfer addysgu a dysgu.

3.18. Nododd nifer fach o ymatebwyr hefyd fod yn rhaid i godi ymwybyddiaeth fod yn gynhwysol, yn sensitif yn ddiwylliannol ac yn hygyrch i deuluoedd ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n siarad ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg. Roedd eraill yn teimlo bod angen cynlluniau gweithredu cliriach a sail dystiolaeth gryfach ar y cynigion i ddangos sut y byddent yn cyflawni effaith ar lefel y boblogaeth.

3.19. Roedd un o'r pryderon allweddol yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu. Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai codi ymwybyddiaeth heb fuddsoddiad

ychwanegol mewn cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu arbenigol, hyfforddiant a chapasiti ehangach y gweithlu gynyddu pwysau ar system sydd eisoes dan bwysau, yn enwedig lle mae plant yn wynebu amseroedd aros hir i gael cymorth.

Cwestiwn 3. Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 2) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

3.20. 84% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C3. Ateb	***Cyfrif***	***%***
Cytuno'n gryf	28	*31*
Cytuno	*47*	*53*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	*7*	*8*
Anghytuno	1	*1*
Anghytuno'n gryf	5	*6*
Ddim yn gwybod / dim barn	1	*1*
Cyfanswm	**89**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 3

3.21. Rhoddodd 58 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.22. Dangosodd ymatebwyr gefnogaeth gref ar gyfer gwella prosesau cynnar a chyson o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Croesawodd llawer y defnydd o offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mwy o safoni a nodi'n gynharach, gan ddweud bod nodi amserol yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir mor gynnar â phosibl.

3.23. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr amrywiad presennol o ran sut mae anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu nodi ar draws lleoliadau, a all arwain at gymorth wedi'i oedi neu anghyson. Roeddent yn teimlo y gallai dull mwy safonedig helpu i fynd i'r afael â hyn, ond pwysleisiwyd na fyddai offer yn unig yn ddigonol. Bydd angen llwybrau cliriach, mwy cydgysylltiedig ledled Cymru hefyd i sicrhau bod nodi yn arwain at gymorth priodol.

3.24. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi adolygu trefniadau asesu presennol ac offer nodi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn enwedig ar gyfer plant pump oed a throsodd. Fodd bynnag, codwyd pryderon am argaeledd a datblygiad offer Cymraeg a Saesneg dwyieithog addas, a'r angen i sicrhau nad yw plant Cymraeg a dwyieithog dan anfantais.

3.25. Rhybuddiodd ymatebwyr hefyd fod yn rhaid i nodi gwell fod yn realistig o fewn capasiti presennol y gweithlu. Roedd rhai'n pryderu am bwysau ychwanegol ar ysgolion a staff blynyddoedd cynnar, yn enwedig lle mae gwasanaethau eisoes dan bwysau. Roeddent yn dadlau bod yn rhaid i'r broses o nodi gael ei chyfateb gan gyllid cynaliadwy, cymorth arbenigol a llwybrau atgyfeirio clir.

3.26. Yn olaf, pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr fod yn rhaid i brosesau nodi fod yn gynhwysol, yn ymatebol yn ddiwylliannol ac yn wrth-hiliol er mwyn osgoi atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol.

Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r cymorth i'r rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 3) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

3.27. 90% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C4. Ateb	*Cyfrif*	*%*
Cytuno'n gryf	30	*34*
Cytuno	49	*56*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	2	*2*
Anghytuno	3	*3*
Anghytuno'n gryf	3	*3*
Ddim yn gwybod / dim barn	1	*1*
Cyfanswm	**88**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 4

3.28. Rhoddodd 54 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.29. Nododd ymatebwyr sawl blaenoriaeth ar gyfer gwella cymorth. Pwysleisiodd llawer y byddai adolygu'r sylfaen dystiolaeth a mapio'r ddarpariaeth dim ond yn gwella canlyniadau os bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gamau gweithredu clir, ymyrraeth amserol, adnoddau digonol a chymorth i ymarferwyr. Er enghraifft:

‘Mae'r camau gweithredu hyn yn cynrychioli cam cychwynnol pwysig. Fodd bynnag, er bod nodi yn gynnar yn hanfodol, ni fydd adolygu'r sail dystiolaeth a mapio'r ddarpariaeth ar ei ben ei hun yn gwella canlyniadau oni bai eu bod yn cael eu dilyn gan benderfyniadau clir, adnoddau ac ymrwymiad system gyfan i weithredu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gyson.’

3.30. Un thema allweddol oedd yr angen am lwybrau cydgysylltiedig ar draws iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, gofal plant, blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai rolau a chyfrifoldebau fod yn glir, gyda chymorth ar gael ar draws darpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu.

3.31. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys adeiladu ar raglenni presennol fel Prosiect Pengwin. Roeddent yn teimlo bod angen canllawiau cliriach ar sut y dylid dewis ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, eu haddasu a'u hymgorffori mewn ymarfer bob dydd, yn enwedig ar gyfer plant 5–11 oed.

3.32. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y byddai gweithredu yn gofyn am gyllid, hyfforddiant, arweiniad a chymorth proffesiynol ychwanegol. Heb fuddsoddi mewn capasiti'r gweithlu, hyfforddi a llwybrau clir, roedd pryder y byddai ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn parhau i fod yn ddamcaniaethol yn hytrach na chael eu cyflwyno'n gyson yn ymarferol.

3.33. Yn olaf, codwyd pwysau presennol y gweithlu fel pryder, yn enwedig ym maes addysg, lle efallai nad oes gan staff yr amser, y capasiti na'r arbenigedd i ymgymryd â chyfrifoldebau ymyrraeth lleferydd, iaith a chyfathrebu ychwanegol heb gymorth pellach.

Cwestiwn 5. Ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu arfaethedig i uwchsgilio'r gweithlu i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 4) yn arwain adnabod anghenion yn well a chymorth gwell?

3.34. 83% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C5. Ateb	***Cyfrif***	***%***
Cytuno'n gryf	34	*39*
Cytuno	39	*44*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	6	*7*
Anghytuno	7	*8*
Anghytuno'n gryf	2	*2*

Ddim yn gwybod / dim barn	0	*0*
Cyfanswm	**88**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 5

3.35. Rhoddodd 61 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.36. Fel gyda chwestiynau blaenorol, roedd y prif bryderon yn ymwneud â phwysau'r gweithlu, cyllid, amser cyfyngedig ar gyfer hyfforddiant a gorddibyniaeth ar ysgolion. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod cysylltiad agos rhwng y materion hyn, gan nodi efallai na fydd ysgolion a lleoliadau addysg yn gallu bodloni disgwyliadau ychwanegol heb hyfforddiant, capasiti a chymorth priodol.

3.37. Pwysleisiodd llawer o sylwadau fod yn rhaid i'r cyfrifoldebau cynyddol gael eu cyfateb gan gyllid digonol, amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant, capasiti staff a mynediad at fentora neu gymorth arbenigol. Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon ehangach hefyd am recriwtio a chadw, yn enwedig mewn gweithlu sydd eisoes wedi'i ddisgrifio fel un nad yw'n cael ei dalu'n ddigonol ac sydd o dan ormod o bwysau.

3.38. Er gwaethaf y pryderon hyn, roedd cytundeb eang bod angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gael gwybodaeth gryfach am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai hyfforddiant fod yn ymarferol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn barhaus ac wedi'i ymgorffori mewn ymarfer bob dydd, yn hytrach na'i gyflwyno fel sesiynau untro.

3.39. Dadleuodd sawl ymatebydd hefyd y dylai hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ddechrau ar lefel cyn-gofrestru a pharhau drwy gydol gyrfaoedd proffesiynol ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Awgrymodd eraill y dylai hyfforddiant fod ar gael i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant, gan

gynnwys y rhai y tu hwnt i wasanaethau statudol, ac y dylid ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn cynnal hyder a sgiliau.

Cwestiwn 6. Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir o ymgorffori cymorth ataliol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar draws Cymru (amcan 5) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

3.40. 83% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C6. Ateb	***Cyfrif***	***%***
Cytuno'n gryf	36	*42*
Cytuno	35	*41*
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	6	*7*
Anghytuno	3	*3*
Anghytuno'n gryf	5	*6*
Ddim yn gwybod / dim barn	1	*1*
Cyfanswm	**86**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 6

3.41. Rhoddodd 52 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.42. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi mynediad teg at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru, waeth ble mae plentyn yn byw. Croesawodd llawer y ffocws ar leihau amrywiad rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a lleoliadau addysg, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cymorth yn cyrraedd plant a theuluoedd agored i niwed a allai wynebu anfantais. Fel y mae un ymatebydd yn nodi:

‘Mae pobl yn aml yn dweud wrthym na ddylai lle rydych yn byw effeithio ar ba mor gyflym neu hawdd y gallwch gael cymorth. Mae'r amcan hwn yn cefnogi'r syniad y dylai gwasanaethau fod yn deg, yn hygyrch ac yn gweithio'n dda i bawb. Rydym yn croesawu'r ffocws ar wneud cymorth yn fwy cyfartal ledled Cymru ac ar weithio'n

agos gyda gwasanaethau fel iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), llythrennedd a chyfiawnder. Mae cymorth ataliol yn gweithio orau pan fydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd a phan all teuluoedd gael gafael ar gymorth yn gynnar, yn hytrach na dim ond pan fydd problemau'n mynd yn fwy difrifol. Mae (*sefydliad*) yn cefnogi'n gryf ymgorffori cymorth ataliol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru.'

3.43. Nododd sawl ymatebydd fod yn rhaid i gymorth ataliol fod yn gynhwysol ac yn ymatebol i amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol, gan gynnwys teuluoedd amlieithog. Pwysleisiodd eraill na fydd darpariaeth gyffredinol wedi'i thargedu yn ddigon i bob plentyn, ac y bydd angen cymorth arbenigol o hyd i grwpiau fel plant niwrowahanol, plant ag anhwylder datblygu iaith, plant sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, y rhai mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid a phlant ag anghenion cyfathrebu cymhleth neu ddieiriau.

3.44. Roedd ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol, ond roedd rhai yn gwahaniaethu rhwng atal anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a lleihau eu heffaith neu atal anghenion rhag gwaethygu. Ar gyfer plant 5-11 oed, roedd rhai o'r farn y dylid canolbwyntio ar leihau effaith tymor hwy anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hytrach na'u hatal yn gyfan gwbl.

3.45. Roedd cefnogaeth gref hefyd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig ar draws addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, ADY, iechyd meddwl, llythrennedd, cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau cymorth cymunedol a chymorth i deuluoedd. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ganolog i ganlyniadau ehangach, gan gynnwys llesiant, dysgu a chyfleoedd hirdymor.

3.46. Fel yn achos cwestiynau blaenorol, codwyd pryderon am gapasiti'r gweithlu, hyfforddiant, cyllid a'r angen am ymrwymiadau cliriach, sy'n canolbwyntio ar weithredu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn na fyddai cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau yn ddigon heb fuddsoddiad ymarferol mewn staff, adnoddau a chapasiti cyflawni.

Cwestiwn 7. Ar wahân i'r 5 amcan a awgrymir ar hyn o bryd yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw amcanion eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod.

3.47. Ymatebodd 40% drwy ddweud "oes". Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C7. Ateb	*Cyfrif*	*%*
Oes	33	*40*
Nac oes	23	*28*
Ddim yn gwybod / dim barn	26	*32*
Cyfanswm	**82**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 7

3.48. Rhoddodd 49 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.49. Roedd awgrymiadau ymatebwyr yn gyffredinol yn canolbwyntio ar naill ai ychwanegu amcanion newydd neu ailfframio amcanion presennol i'w gwneud yn fwy mesuradwy, yn fwy cynhwysol ac yn canolbwyntio mwy ar weithredu. Argymhelliad cyffredin oedd cynnwys amcan penodol ar werthuso, effaith ac atebolrwydd, gyda mesurau cenedlaethol a lleol clir, casglu data cyson a dulliau ar gyfer monitro a yw'r cynllun yn gwella canlyniadau.

3.50. Galwodd llawer o ymatebwyr hefyd am gydgynhyrchu cryfach ac ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys ffyrdd i blant 5-11 oed rannu eu barn. Awgrymodd rhai amcan penodol ar gyfathrebu â theuluoedd, yn enwedig i gefnogi ymgysylltu gan gymunedau diwylliannol ac amlieithog amrywiol.

3.51. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylai'r amcanion roi mwy o sylw i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sefydledig neu barhaus, yn hytrach

na chanolbwyntio'n bennaf ar atal. Roedd yr ailfframio a awgrymwyd yn cynnwys lleihau effeithiau tymor byr a hirdymor anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, sicrhau mynediad amserol at gymorth, a chryfhau'r ddarpariaeth i blant ag anghenion ychwanegol neu gymhleth.

3.52. Ymhlith y meysydd eraill a awgrymwyd ar gyfer mwy o ffocws roedd llythrennedd emosiynol, cydweithredu traws-sector, rhannu gwybodaeth a llwybrau pontio rhwng y blynyddoedd cynnar, lleoliadau cynradd ac uwchradd. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i leihau anghydraddoldebau rhanbarthol ac economaidd-gymdeithasol mewn canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru.

3.53. Yn olaf, pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr y dylai'r amcanion adlewyrchu'n well y gwahanol fathau o gyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu dieiriau, iaith arwyddion, Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen, amlieithrwydd a darpariaeth Gymraeg.

Cwestiwn 8. Ar wahân i'r camau gweithredu arfaethedig a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw gamau eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod.

3.54. Ymatebodd 46% drwy ddweud "oes". Gweler y dadansoddiad o'r ymatebion yn y tabl isod.

C8. Ateb	***Cyfrif***	***%***
Oes	39	*46*
Nac oes	18	*21*
Ddim yn gwybod / dim barn	27	*32*
Cyfanswm	**84**	

Ymatebion ysgrifenedig i gwestiwn 8

3.55. Rhoddodd 49 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.56. Roedd yr ymatebwyr a awgrymodd gamau gweithredu ychwanegol yn fwyaf cyffredin yn galw am ganllawiau cenedlaethol penodol a fframweithiau monitro. Roeddent yn teimlo y byddai canllawiau cliriach ar gyfer Cymru gyfan yn cryfhau'r gwaith o nodi'n gynharach, cynllunio ymyriadau a gwerthuso, gan helpu i sicrhau bod ysgolion yn defnyddio dulliau cydlynol a theg i fonitro datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am fonitro canlyniadau clir a chyson i ddangos beth sy'n gweithio, i bwy, a ble mae anghydraddoldebau yn parhau. Er enghraifft: ‘cam gweithredu ychwanegol pwysig fyddai datblygu fframwaith canllawiau cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer monitro lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gyson ar draws y blynyddoedd cynradd. Er bod yr ymgynghoriad yn cynnig adolygu rhaglenni cymorth presennol a gwella nodi a hyfforddiant, nid yw'n cynnwys cam gweithredu penodol i sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio dulliau cydlynol, teg i fonitro datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu’

3.57. Pwysleisiodd llawer o sylwadau y dylai unrhyw fframwaith fod yn genedlaethol ac wedi'i ymgorffori ar draws y system gyfan. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr amrywiad presennol rhwng awdurdodau lleol a galwasant am ddull Cymru gyfan o nodi, cefnogi a datblygu sgiliau anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ochr yn ochr â chasglu a dadansoddi data cenedlaethol i werthuso effaith, ysgogi gwelliant a lleihau gwahaniaethau rhanbarthol.

3.58. Ochr yn ochr â hyn, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am offer, adnoddau a hyfforddiant cyson. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gofynion hyfforddiant sylfaenol ar draws sectorau, canllawiau a phecynnau cymorth cenedlaethol, offer safonedig i fesur cynnydd plant, hyfforddiant traws-sector, ac adnoddau ymarfer myfyriol. Fodd bynnag, cododd yr ymatebwyr bryderon hefyd am gapasiti'r system, gan rybuddio y gallai disgwyliadau newydd gynyddu'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol, ysgolion ac ymarferwyr sydd eisoes dan bwysau oni bai eu bod wedi'u hariannu'n briodol. Argymhellodd rhai y dylai gweithredu fod yn sensitif i lwyth gwaith, gan gynnwys drwy asesiad ffurfiol o'r effaith ar lwyth gwaith.

3.59. Thema allweddol arall oedd yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn darpariaeth arbenigol, yn enwedig therapi iaith a lleferydd. Dadleuodd yr ymatebwyr na fyddai cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu yn ddigonol i rai plant a theuluoedd, ac y dylai cymorth arbenigol fod yn fwy hygyrch mewn cymunedau ac ysgolion.

3.60. Yn olaf, tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd rhannu data, gweithio cydgysylltiedig a chynnwys y teulu. Gwnaethant alw am well rhannu gwybodaeth rhwng systemau iechyd, addysg a blynyddoedd cynnar, canllawiau cliriach ac adnoddau cyffredinol i rieni ac ymarferwyr, a mwy o gydgynhyrchu â phlant, teuluoedd a chymunedau. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer gwneud cymorth yn hygyrch, yn sensitif yn ddiwylliannol, yn seiliedig ar brofiad bywyd ac yn ymatebol i anghenion lleol.

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori (i hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru) ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

3.61. Rhoddodd 72 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.62. Roedd ymatebion agored i gwestiwn naw yn codi amrywiaeth eang o farn, ond y thema gyffredinol gryfaf oedd y gallai'r amcanion arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg pe baent yn cael eu gweithredu'n effeithiol drwy ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai gwella cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu gynyddu cyfleoedd plant i ddefnyddio'r Gymraeg, cryfhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a gwella canlyniadau i blant sy'n datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf neu iaith ychwanegol.

3.63. Pwysleisiodd sawl ymatebydd y byddai'r effaith gadarnhaol hon yn dibynnu ar ymgorffori'r Gymraeg o'r cychwyn yn hytrach na'i hychwanegu'n ddiweddarach. Roeddent yn dadlau y dylai offer, hyfforddiant, adnoddau, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymyriadau fod yn gwbl ddwyieithog ac yn briodol yn ddiwylliannol fel mater o drefn. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig nid yn unig ar gyfer bodloni gofynion y Gymraeg, ond hefyd ar gyfer normaleiddio'r Gymraeg fel iaith cyfathrebu cynnar, dysgu a rhyngweithio bob dydd.

3.64. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu nad oedd yr amcanion yn rhoi digon o sylw i ddatblygiad y Gymraeg, dwyieithrwydd na gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai nad oedd cyfeiriad clir at y Gymraeg yn yr amcanion na'r deunyddiau hawdd eu deall, gan alw am sicrhau bod hyfforddiant dwyieithog, deunyddiau ac adnoddau ar gael yn gyfartal i leoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am ragor o ymchwil i ddatblygiad iaith ddwyieithog yng Nghymru a gweithio'n agosach gyda phrifysgolion ac arbenigwyr cyfrwng Cymraeg.

3.65. Roedd un o'r pryderon mawr yn ymwneud ag argaeledd ac ansawdd offer asesu, systemau sgrinio ac ymyriadau cyfrwng Cymraeg. Rhybuddiodd yr ymatebwyr, pe bai deunyddiau, hyfforddiant neu gymorth arbenigol cyfrwng Saesneg yn cael eu datblygu neu eu cyflwyno'n gyflymach na'r rhai Cymraeg cyfatebol, y gallai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol, ac y gallai anghenion plant sy'n siarad Cymraeg gael eu diystyru. Er mwyn lleihau'r risg hon, gwnaethant alw am ddatblygu systemau monitro, adnoddau a modiwlau hyfforddi ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg, gydag offer nodi ac ymyriadau cyfrwng Cymraeg yn cael statws cyfartal.

3.66. Yn olaf, cododd yr ymatebwyr bryderon am gapasiti'r gweithlu, yn enwedig argaeledd therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n siarad Cymraeg. Nodwyd bod y gwasanaethau presennol eisoes dan bwysau ac y gallai capasiti cyfyngedig o ran gweithlu sy'n siarad Cymraeg gyfyngu ar fynediad at gymorth amserol drwy'r Gymraeg. Dadleuodd yr

ymatebwyr fod buddsoddi mewn capasiti Cymraeg yn hanfodol ond y dylid ei gydnabod fel ymrwymiad hirdymor sy'n gofyn am weithredu parhaus ar draws systemau.

Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori, sef hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru, er mwyn:
sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

3.67. Rhoddodd 57 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.68. Roedd yr ymatebion i gwestiwn 10 yn adlewyrchu safbwynt tebyg i'r rhai a roddwyd ar gyfer cwestiwn 9. Un thema amlwg oedd y dylid integreiddio ystyriaethau'r Gymraeg ym mhob amcan, yn hytrach na mynd i'r afael â nhw yn anuniongyrchol neu eu trin fel mater ychwanegol. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylai dwyieithrwydd fod yn un o egwyddorion trefnu craidd y strategaeth, gyda disgwyliadau ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu gwneud yn fwy eglur o'r cychwyn.

3.69. Galwodd sawl ymatebydd am gyfeiriadau cryfach at y Gymraeg ar draws yr amcanion. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi yn yr iaith neu'r ieithoedd sydd fwyaf ystyrlon iddynt, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Awgrymodd rhai y dylai pob amcan gynnwys gofynion dwyieithog eglur, gan gynnwys disgwyliadau cliriach ynghylch datblygu iaith ddwyieithog, asesu, a chymorth i ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

3.70. Un o'r themâu arwyddocaol oedd yr angen am fynediad cyfartal at offer, hyfforddiant, adnoddau ac ymyriadau cyfrwng Cymraeg. Nododd yr ymatebwyr fod offer asesu ac ymyrraeth yn hanesyddol wedi cael eu datblygu yn Saesneg neu eu cyfieithu'n ddiweddarach gan ddadlau y dylai

Cam 2 Siarad Gyda Fi sicrhau bod deunyddiau Cymraeg a Saesneg yn cael eu datblygu a'u darparu ar yr un pryd. Galwasant hefyd am i hyfforddiant y gweithlu gynnwys arfer o ran y Gymraeg, ac am fonitro i olrhain defnydd teg o'r Gymraeg a'r Saesneg.

3.71. Roedd yr awgrymiadau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn cynnwys cyfeirio'n benodol at gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr holl offer, ymyriadau ac adnoddau, a chryfhau amcan y gweithlu i gynnwys cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen hyfforddiant ar ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn Gymraeg, gan osgoi newid yn amhriodol i'r Saesneg neu nodi angen yn anghywir.

3.72. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd monitro mynediad at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu cyfrwng Cymraeg, datblygu fersiynau cyfrwng Cymraeg o'r holl ddeunyddiau ac ymyriadau, a chreu llwybrau dysgu proffesiynol i feithrin arbenigedd lleferydd, iaith a chyfathrebu cyfrwng Cymraeg. Rhybuddiodd rhai y gallai lleoliadau cyfrwng Cymraeg fod dan anfantais os nad yw bylchau mewn deunyddiau arbenigol, capasiti'r gweithlu neu fynediad at hyfforddiant yn cael eu datrys yn uniongyrchol.

3.73. I gefnogi tegwch, argymhellodd yr ymatebwyr gydraddoldeb o ran hyfforddiant, adnoddau a chymorth arbenigol yn Gymraeg, ochr yn ochr â chydgynhyrchu parhaus ag ymarferwyr cyfrwng Cymraeg, teuluoedd ac arbenigwyr iaith. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer cynnal cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl.

3.74. Roedd lleiafrif bach iawn o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai'r Gymraeg fod yn un o'r prif bryderon, tra nododd un ymatebydd fod angen rhoi sylw hefyd i heriau cyfathrebu ehangach, gan gynnwys plant sy'n dechrau yn y feithrinfa gyda sgiliau iaith cyfyngedig iawn.

Cwestiwn 11. Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori er mwyn hyrwyddo effeithiau

cadarnhaol, neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, ar hawliau plant?Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod.

3.75. Rhoddodd 55 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.76. Dangosodd yr ymatebion i gwestiwn 11 gonsensws cryf bod cyfathrebu yn ganolog i hawliau, cyfranogiad a llesiant plant. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn cysylltu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu â hawl plant i addysg, cynhwysiant, cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau, a mynediad at gymorth amserol a theg.

3.77. Pwysleisiodd sawl ymatebydd y gallai oedi cyn nodi neu ymyrraeth beryglu hawliau plant, yn enwedig pan fo anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn effeithio ar ddysgu, llesiant a chyfleoedd yn y dyfodol. Gwnaeth rhai hefyd gysylltu hyn â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan nodi y dylai plant allu cael mynediad at addysg a chymorth yn Gymraeg lle bo angen.

3.78. Un o'r prif themâu oedd tegwch mynediad. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylai cymorth fod ar gael i bob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, iaith, anghenion dysgu ychwanegol neu leoliad. Awgrymwyd y dylai'r amcanion gynnwys canllawiau cliriach ar degwch, cymhwysedd diwylliannol ac arfer gwrth-hiliol i sicrhau nad yw dysgwyr agored i niwed dan anfantais.

3.79. Roedd y thema fwyaf yn ymwneud â hawl plant i gymryd rhan a chael eu clywed, gyda llawer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig yr hawl i fynegi safbwyntiau a bod rhywun yn cymryd y safbwyntiau hynny o ddifrif. Awgrymodd rhai y dylid cyfeirio'n benodol at fframweithiau hawliau plant o fewn yr amcanion i gefnogi tegwch, peidio â gwahaniaethu ac arfer sy'n canolbwyntio ar blant.

3.80. Galwodd yr ymatebwyr hefyd am i leisiau plant lunio gweithredu a gwerthuso. Roeddent yn teimlo y dylai plant, gan gynnwys y rhai 5-11 oed, gael cyfleoedd strwythuredig i esbonio beth sy'n eu helpu i gyfathrebu, dysgu

a chymryd rhan. Roedd hyn yn gysylltiedig â galwad ehangach am gydgynhyrchu, lle gwrandewir ar blant a theuluoedd a gweithredir ar eu hadborth.

3.81. Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr gyfathrebu effeithiol fel hawl ynddi'i hun. Roeddent yn dadlau bod gan bob plentyn yr hawl i lais, ac y dylai oedolion ddefnyddio'r sgiliau, yr offer a'r strategaethau cywir, gan gynnwys dulliau cyfathrebu cyflawn, i gefnogi hyn. Pwysleisiodd rhai hefyd bwysigrwydd cefnogi plant i gyfathrebu yn iaith y cartref.

3.82. Canolbwyntiodd nifer llai o ymatebwyr ar sut mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu i blant. Awgrymwyd adnoddau sy'n ystyriol o blant, deunyddiau gwefan ac adrannau dysgu hunangyfeiriedig neu uwchsgilio i helpu plant i ddeall a datblygu eu sgiliau cyfathrebu eu hunain.

3.83. Yn olaf, galwodd rhai o'r ymatebwyr am ddull mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roeddent yn teimlo y dylai'r amcanion osgoi gwneud pethau “i” blant ac yn hytrach gweithio “gyda” nhw, gan ystyried eu cefndir, eu bywyd cartref, eu llesiant a'u hamgylchiadau unigol ochr yn ochr â'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Cwestiwn 12. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol

3.84. Rhoddodd 45 o ymatebwyr ymateb ysgrifenedig, a grynhoir isod.

3.85. Un o’r themâu cyson cryfaf oedd pryder na fyddai uchelgeisiau'r strategaeth yn gyraeddadwy heb fuddsoddiad sylweddol yn y gweithlu. Tynnodd yr ymatebwyr sylw dro ar ôl tro at brinder staff, cyllid annigonol, a phwysau ar wasanaethau therapi iaith a lleferydd. Rhybuddiodd sawl un y gallai prinder therapyddion iaith a lleferydd, oedi o ran mynediad at gymorth, bylchau rhwng asesu ac ymyrraeth, a mynediad cyfyngedig at Gyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen atal Cam 2 Siarad Gyda Fi rhag cyflawni gwelliannau ystyrlon.

3.86. Codwyd cyllid hefyd fel pryder allweddol, yn enwedig i ymarferwyr blynyddoedd cynnar a lleoliadau sydd eisoes dan bwysau ariannol. Nododd rhai o'r ymatebwyr y gall cyflwyno sesiynau Siarad Gyda Fi greu costau ychwanegol ar gyfer deunyddiau, gweithgareddau a chymhellion, a allai effeithio ar gyfranogiad a chyflawni.

3.87. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn pryderu y gallai mwy o nodi cynnar roi pwysau pellach ar system sydd eisoes dan bwysau. Roeddent yn dadlau bod yn rhaid i gapasiti, adnoddau a chymorth dwyieithog digonol fod ar waith cyn i'r galw gynyddu ymhellach. Heb hyn, mae risg y bydd yr angen yn tyfu'n gyflymach nag y gall gwasanaethau ymateb, gan ehangu anghydraddoldebau o ran addysg, iechyd meddwl a chanlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd.

3.88. Thema bwysig arall oedd yr angen am weithio amlasiantaeth cryfach, gan gynnwys llwybrau cliriach ar gyfer rhannu data, atgyfeiriadau a chyfathrebu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai hyn leihau dyblygu, gwella cysondeb, a helpu i rannu arfer da rhwng canolfannau lleferydd, iaith a chyfathrebu, ysgolion prif ffrwd a gwasanaethau eraill.

3.89. Galwodd llawer o'r ymatebwyr am gynlluniau gweithredu cliriach ac atebolrwydd cryfach. Roeddent yn teimlo bod yr ymgynghoriad yn defnyddio iaith amwys fel “archwilio” a “gweithio gyda”, heb esbonio'n glir pa gamau gweithredu a fyddai'n cael eu cyflawni. Roedd yr ymatebwyr eisiau enghreifftiau mwy diriaethol o weithgareddau, ymyriadau a chamau ymarferol i wella canlyniadau i blant a theuluoedd.

3.90. Cafwyd galwadau hefyd am gysondeb cliriach â pholisïau presennol, gan gynnwys Cwricwlwm i Gymru, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a strategaethau llesiant ehangach. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i osgoi dyblygu ac yn cefnogi gweithredu cydlynol ar draws lleoliadau. Roeddent hefyd eisiau cyfathrebu cliriach am ddisgwyliadau ar gyfer

ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys sut y dylai arferion lleferydd, iaith a chyfathrebu effeithiol edrych ar draws gwahanol grwpiau oedran.

3.91. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at y diffyg amserlenni a cherrig milltir clir i'w cyflawni rhwng 2026 a 2030. Roeddent yn dadlau y dylai'r strategaeth symud yn gyflym o ymgynghori i gyflawni, gyda mesurau dros dro i gynnal cynnydd a dangos sut y bydd adolygiadau o arfer effeithiol yn troi'n gymorth i blant, teuluoedd ac ymarferwyr.

3.92. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd yr angen am fesurau canlyniadau cenedlaethol a monitro cyson ar draws ardaloedd lleol ac asiantaethau. Awgrymwyd cyfres fach o fesurau cenedlaethol, ynghyd ag adborth ansoddol lleol, fel ffordd o gefnogi gwerthuso a gwelliant parhaus.

3.93. Galwodd sawl ymatebydd am ffocws cryfach ar gynhwysiant. Roeddent am i adnoddau, hyfforddiant, asesiadau ac ymyriadau fod yn hygyrch, yn ymatebol yn ddiwylliannol ac yn briodol yn ieithyddol i blant dwyieithog, amlieithog ac amrywiol eu diwylliant. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau i helpu ymarferwyr i wahaniaethu rhwng gwahaniaethau cyfathrebu ac anawsterau cyfathrebu.

3.94. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod y dystiolaeth yn awgrymu y gall cymorth sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer ymarferwyr a rhieni wneud gwahaniaeth cadarnhaol diriaethol i leferydd, iaith a chyfathrebu.

3.95. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at faterion y dylid eu hystyried o ran nodi a monitro:

- wrth i blant symud drwy'r ysgol gynradd, rhaid iddynt ymdopi â geirfa fwy cymhleth, cyfarwyddiadau aml-gam, trafodaeth, iaith sy'n benodol i bwnc, darllen a deall a mynegiant ysgrifenedig. Gall y disgwyliadau hyn ddatgelu anghenion nad oeddent wedi'u nodi neu a guddiwyd yn flaenorol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thrawma, niwrowahaniaeth, trallod emosiynol, datblygiad dwyieithog, tarfu ar addysg neu anfantais.

- Mae anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn aml yn gudd. Mae plant yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n ymddangos yn dawel, yn bryderus, â'u sylw'n crwydro, yn wrthwynebol neu wedi ymddieithrio pan fyddant yn cael anhawster deall iaith, mynegi eu hunain, prosesu gwybodaeth neu ymdopi â chyfathrebu cymdeithasol.

3.96. Yn olaf, pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd nodi cynnar a chyson ar draws lleoliadau, gan rybuddio y gallai rhai plant syrthio drwy'r rhwyd fel arall. Rhybuddiodd un ymatebydd hefyd na ddylai ehangu Siarad Gyda Fi i blant 5–11 oed wanhau'r gwaith blynyddoedd cynnar presennol ar gyfer plant 0–5 oed.

4. Crynodeb o adroddiad Plant yng Nghymru ar ymgynghori ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cyflwyniad

4.1. Comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026–2030. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y rhaglen Siarad Gyda Fi bresennol ar gyfer babanod a phlant 0 i 5 oed, gan ymestyn ei ffocws i blant hŷn. Ar gyfer yr ymgysylltu hwn, y grŵp targed oedd plant 5 i 11 oed.

4.2. Diben yr ymgysylltu oedd deall barn plant ar leferydd, iaith a chyfathrebu, yr hyn sydd bwysicaf iddynt, pa rwystrau y maent yn eu profi pan fydd cyfathrebu yn anodd, pwy all helpu, a pha gymorth y maent yn teimlo a fyddai'n gwneud gwahaniaeth. Roedd y gwaith hefyd yn trafod barn plant ar frandio Siarad Gyda Fi ac a oedd nodau a chanlyniadau'r rhaglen yn adlewyrchu profiadau plant.

4.3. Cymerodd cyfanswm o 98 o blant a phobl ifanc 6 i 11 oed ran mewn sesiynau ymgysylltu ar draws pedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru: Powys, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam a Phen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd sesiynau mewn ysgolion cynradd dros saith sesiwn ym mis Mawrth 2026. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys plant o amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. Roedd rhai plant yn niwrowahanol, roedd gan un plentyn syndrom Down, ac roedd gan nifer brofiad uniongyrchol neu deuluol o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd rhai plant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n siarad iaith arall gartref, gan gynnwys Cymraeg, Pwyleg, Portiwgaleg ac Wrdw.

Y dull ymgysylltu

4.4. Roedd yr ymgysylltu'n defnyddio gweithdai rhyngweithiol, addas i'r oedran, wedi'u cynllunio i gefnogi cyfranogiad cynhwysol. Roedd y gweithgareddau'n

cynnwys trafodaethau grŵp, ymarferion graddio, pleidleisio, gweithgareddau tynnu llun ac ysgrifennu, ymatebion “Pennau i Lawr, bodiau i fyny”, nodiadau'r hwyluswyr, a dwdlau ar siartiau troi.

4.5. Cafodd y sesiynau eu haddasu ar gyfer plant iau, a defnyddiwyd sbardunau gweledol, symud, tasgau creadigol a chwestiynau wedi'u symleiddio. Rhoddwyd cerdyn emoji “Dw i ddim eisiau siarad” i'r plant hefyd, y gallent ei ddefnyddio pe baent yn teimlo'n anghyfforddus neu ddim am ateb cwestiwn. Defnyddiodd nifer sylweddol o blant y cardiau hyn yn ystod y sesiynau, gan amlygu pwysigrwydd rhoi ffyrdd diogel a dieiriau i blant gymryd rhan.

4.6. Roedd y gweithdai'n trafod:

- beth mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ei olygu mewn bywyd bob dydd
- pam mae cyfathrebu'n bwysig
- beth sydd bwysicaf i blant
- pryd mae cyfathrebu'n teimlo'n anodd
- sut mae anawsterau cyfathrebu'n effeithio ar fywydau a theimladau plant
- pwy mae plant yn ymddiried ynddynt i'w helpu
- pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol
- barn ar enw a brandio Siarad Gyda Fi.

Prif ganfyddiadau

4.7. Roedd y plant yn gyson yn disgrifio cyfathrebu fel rhywbeth canolog i'w bywydau. Roeddent yn ei gysylltu'n gryf â chyfeillgarwch, perthnasoedd teuluol, dysgu, diogelwch, cynhwysiant, llesiant emosiynol a theimlo bod pobl yn eu deall.

4.8. Un o'r canfyddiadau allweddol oedd bod anawsterau cyfathrebu yn gyffredin ac yn sensitif yn emosiynol. Dywedodd bron hanner y plant y gofynnwyd iddynt fod adegau pan allai lleferydd, iaith a chyfathrebu fod yn anodd. Dywedodd bron yr un nifer y gallai'r anawsterau hyn fod yn rhwystr i'r hyn sy'n bwysig iddynt.

4.9. Roedd y plant yn glir y dylai cymorth ddod gan bobl y maent yn ymddiried ynddynt sy'n gwrando, yn deall, yn tawelu eu meddyliau ac yn rhoi amser iddynt. Roeddent yn gwerthfawrogi cynhesrwydd, amynedd, caredigrwydd a chymorth ymarferol.

Yr hyn sydd bwysicaf i blant

4.10. Ar draws pob grŵp oedran, rhoddodd y plant atebion cyson iawn ynghylch yr hyn a oedd bwysicaf yn eu bywydau. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- y teulu agos, gan gynnwys rhieni a brodyr a chwiorydd
- ffrindiau
- y teulu estynedig, gan gynnwys neiniau a theidiau a chefndryd;
- anifeiliaid anwes
- chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol
- chwarae a hamdden
- athrawon a'r ysgol
- bwyd, cwsg a theimlo'n ddiogel
- caredigrwydd, heddwch, cariad, ffydd a natur.

4.11. Teulu a ffrindiau oedd y themâu cryfaf. Mae hyn yn dangos bod perthnasoedd plant a'u hymdeimlad o berthyn yn ganolog i'w llesiant. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylid ystyried cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu nid yn unig fel mater dysgu, ond hefyd fel mater sy'n ymwneud â pherthnasoedd, llesiant a chynhwysiant.

Pwysigrwydd cyfathrebu

4.12. Gofynnwyd i'r plant pa mor bwysig oedd cyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd. Ymhlith plant Blynyddoedd 3, 4, 5/6 a 6, dywedodd y mwyafrif ei bod yn bwysig:

- dweud wrth ffrind am rywbeth hwyliog yr oeddent wedi'i wneud
- gofyn am help pan fyddant yn cael trafferth
- siarad â chyd-aelodau tîm wrth chwarae gêm
- rhannu rhywbeth personol neu breifat â rhywun y maent yn ymddiried ynddo

- dweud wrth y teulu pan fyddant yn hapus, yn drist, yn bryderus neu'n rhwystredig.

4.13. Ymhlith y 77 o blant hŷn a atebodd y cwestiynau manwl:

- dywedodd 66 ei bod yn bwysig dweud wrth ffrind am rywbeth hwyliog
- dywedodd 70 ei bod yn bwysig gofyn am help pan fyddant yn cael trafferth
- dywedodd 67 ei bod yn bwysig siarad â chyd-aelodau tîm wrth chwarae gêm
- dywedodd 49 ei bod yn bwysig rhannu rhywbeth personol neu breifat â rhywun y maent yn ymddiried ynddo
- dywedodd 58 ei bod yn bwysig dweud wrth y teulu sut maent yn teimlo.

4.14. Roedd plant iau ym Mlwyddyn 2 yn llai sicr pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol am gyfathrebu i ddechrau, gyda llawer yn sefyll yn y canol neu'n ansicr[2]. Fodd bynnag, dangosodd y drafodaeth fod cyfathrebu'n dal yn bwysig iddynt, yn enwedig o ran cyfeillgarwch, perthnasoedd teuluol a chael help yn yr ysgol.

4.15. Esboniodd y plant fod cyfathrebu'n eu helpu i:

- deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ffrindiau a theulu
- rhannu teimladau a phryderon
- gofyn am help
- deall gwaith ysgol
- teimlo'n ddiogel
- cymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau
- dysgu gan eraill
- osgoi teimlo dan straen neu wedi'u gadael allan.

[2] Roedd hyn yn adlewyrchu'r data o grwpiau Blwyddyn 2, lle mai dim ond 8 o'r 21 o blant a ddywedodd fod cyfathrebu'n bwysig, o gymharu â 2 a ddywedodd nad oedd yn bwysig ac 11 a safodd yn y canol am eu bod yn ansicr. Fodd bynnag, awgrymodd trafodaethau dilynol ac arsylwadau fod cyfathrebu, mewn gwirionedd, yn bwysig i'r rhan fwyaf o'r plant iau hyn, yn enwedig o ran cyfeillgarwch, perthnasoedd teuluol a chael cymorth yn yr ysgol.

4.16. Cododd rhai plant bryderon hefyd nad oedd oedolion yn gwrando arnynt, neu ynghylch gwybodaeth breifat yn cael ei rhannu. Mae hyn yn dangos bod ymddiriedaeth yn rhan allweddol o gymorth cyfathrebu.

Pan fydd cyfathrebu'n anodd

4.17. Gofynnwyd i'r plant a allai lleferydd, iaith a chyfathrebu fod yn anodd weithiau ac a allai hynny fod yn rhwystr i'r hyn sy'n bwysig iddynt. Er mwyn gwneud hyn yn fwy diogel, atebodd llawer drwy weithgaredd “Pennau i Lawr, Bodiau i Fyny” yn hytrach na siarad yn uchel.

4.18. O blith y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn:

- nododd 48 o blant y gallai lleferydd, iaith a chyfathrebu fod yn anodd ar adegau;
- nododd 44 o blant y gallai hyn fod yn rhwystr i'r hyn sy'n bwysig iddynt.

4.19. Ni chymerodd un garfan ran yn y rhan hon o'r ymarfer oherwydd amharodrwydd i ateb cwestiynau mewn grŵp, felly mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai'r nifer gwirioneddol fod yn uwch.

4.20. Mae'r canfyddiadau'n dangos nad rhwystrau ymarferol yn unig yw anawsterau cyfathrebu. Maent yn effeithio ar hyder, cyfeillgarwch, dysgu, cynhwysiant a llesiant emosiynol plant. Efallai na fydd plant bob amser yn dweud yn agored eu bod yn cael trafferth, yn enwedig o flaen eu cyfoedion.

4.21. Pan ofynnwyd iddynt sut deimlad fyddai methu cyfathrebu, defnyddiodd y plant eiriau a syniadau gan gynnwys:

- trist
- pryderus
- nerfus
- rhwystredig
- ofnus
- dig
- cywilydd
- wedi'u camddeall

- wedi'u gadael allan
- “yn ddigalon”.

4.22. Defnyddiwyd cardiau Mood Monster gyda rhai plant iau i'w helpu i fynegi teimladau heb orfod esbonio popeth ar lafar. Y teimladau a ddewiswyd amlaf oedd tristwch, rhwystredigaeth, pryder, nerfusrwydd ac ofn. Mae hyn yn atgyfnerthu'r canfyddiad y gall anawsterau cyfathrebu fod yn arwyddocaol yn emosiynol.

Barn plant ar gymorth

4.23. Gofynnwyd i'r plant a oedd helpu plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn bwysig. Dywedodd 78 o blant, tua 80% o'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw, ei fod yn bwysig.

4.24. Dywedodd y plant fod cymorth yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu plant i:

- gael eu cynnwys
- gwneud ffrindiau
- deall eraill
- cael eu deall gan eraill
- lleihau pryder
- osgoi teimlo'n drist neu'n ynysig
- cyfathrebu yn hytrach nag aros yn dawel.

4.25. Mae hyn yn awgrymu bod plant yn cydnabod pwysigrwydd cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu, iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Pwy allai helpu, yn ôl y plant

4.26. Nododd y plant amrywiaeth o bobl a allai helpu pan fydd cyfathrebu'n anodd. Y themâu cryfaf oedd:

- **Y teulu:** Rhieni, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau ac aelodau ehangach o'r teulu oedd yn cael eu crybwyll amlaf. Roedd y plant yn gweld y teulu fel pobl a allai wrando, eu cysuro, eu dysgu a helpu eraill i'w deall.

- **Ffrindiau a chyfoedion:** Roedd ffrindiau'n cael eu gweld fel pobl a allai godi eu calon, eu helpu i ddatrys pethau a'u cefnogi'n gymdeithasol.
- **Athrawon a staff ysgol:** Nododd llawer o blant fod athrawon yn ffynonellau cymorth pwysig, yn enwedig pan oedd angen help yn yr ysgol neu pan oedd angen esbonio rhywbeth mewn ffordd wahanol.
- **Oedolion y gellir ymddiried ynddynt:** Soniodd rhai plant am hyfforddwyr, therapyddion ac oedolion eraill y gellir ymddiried ynddynt. Roedd plant hŷn yn arbennig yn cysylltu therapi â magu hyder.
- **Neb:** Dywedodd nifer fach o blant na allent feddwl am unrhyw un a allai eu helpu. Mae'r adroddiad yn nodi bod hyn yn destun pryder, gan y gallai awgrymu nad yw rhai plant yn teimlo bod ganddynt rywun y gallant ymddiried ynddo i droi ato pan fydd cyfathrebu'n anodd.

Sut y dylai cymorth edrych

4.27. Disgrifiodd y plant gymorth emosiynol a chymorth ymarferol.

4.28. Roedd cymorth emosiynol yn cynnwys:

- gwrando
- bod yn garedig
- dweud “mae'n iawn”
- rhoi cofleidiad
- rhoi amser
- helpu plant i ymdawelu
- gwneud i blant deimlo'n gyfforddus
- eu hannog
- peidio â bod yn rhy galed arnynt.

4.29. Roedd y cymorth ymarferol yn cynnwys:

- esbonio pethau mewn ffordd wahanol
- defnyddio esboniadau cam wrth gam
- defnyddio lluniau
- rhoi papur i blant dynnu llun neu ysgrifennu
- defnyddio iaith arwyddion neu Makaton

- defnyddio technegau anadlu
- caniatáu testun yn lle siarad
- defnyddio cyfieithwyr pan fo iaith yn rhwystr
- defnyddio apiau neu dechnoleg i gefnogi ynganu neu gyfathrebu.

4.30. Roedd y plant am i oedolion ddeall y gall dysgu a chyfathrebu fod yn anodd. Roeddent am i oedolion wybod sut maent yn teimlo, eu helpu fwy, eu cefnogi i ganolbwyntio, a'u hannog yn hytrach na'u beirniadu. Awgrymodd rhai plant dechnoleg, fel Google Translate, Duolingo neu apiau cyfathrebu. Er y gallai'r rhain fod yn offer defnyddiol, mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei bod yn ymddangos bod nifer fach o blant yn ffafrio technoleg neu ddeallusrwydd artiffisial yn hytrach na chyfathrebu'n uniongyrchol â phobl. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn ofalus, yn enwedig os yw dibyniaeth ar dechnoleg yn effeithio ar berthnasoedd rhyngbersonol neu ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Brandio ac enw Siarad Gyda Fi

4.31. Dangoswyd amrywiaeth o adnoddau Siarad Gyda Fi i'r plant a gofynnwyd am eu barn ar y logo, y lliwiau, y graffeg a'r geiriad. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn hoffi'r lliwiau llachar, y delweddau deniadol a'r logo cyffredinol.

4.32. Roedd rhai plant hŷn, yn enwedig ym Mlwyddyn 6, yn teimlo y gallai rhai newidiadau wneud y deunyddiau'n fwy addas i blant hŷn. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol bod y brandio presennol yn gweithio'n dda i blant oedran cynradd.

4.33. Roedd gan lawer o blant ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith o ddylunio logo neu ddeunyddiau ar gyfer grŵp oedran hŷn. Mae hyn yn awgrymu y byddai cydgynhyrchu pellach gyda phlant yn werthfawr wrth i Gam 2 Siarad Gyda Fi ddatblygu.

Barn plant ynghylch a fyddai'r cynllun yn gweithio

4.34. Dangoswyd pum nod a chanlyniadau a fwriedir Cam 2 Siarad Gyda Fi i'r plant. Roedd y rhain yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, gwella'r broses o nodi

anghenion, sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir, meithrin sgiliau'r gweithlu a sicrhau bod pob baban a phlentyn yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gymorth.

4.35. Roedd rhai plant yn ei chael yn anodd deall y cwestiwn ynghylch sut i wybod a oedd y cynllun yn gweithio. Fodd bynnag, roedd cytundeb eang fod cefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn beth cadarnhaol ac y byddai pethau'n gwella pe bai plant yn cael yr help cywir.

4.36. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod barn plant yn cyd-fynd yn gryf â nodau a chanlyniadau a fwriedir y cynllun cyflawni. Roedd ymatebion y plant yn pwysleisio:

- bod cyfathrebu'n ganolog i ddiogelwch, llesiant, dysgu, perthnasoedd a chynhwysiant
- y gall anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu effeithio ar yr hyn sydd bwysicaf i blant
- y gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt, sy'n gwrando ac yn deall, wneud gwahaniaeth
- y dylai cymorth fod yn hyblyg, yn gynhwysol ac yn seiliedig ar berthnasoedd
- bod angen i oedolion allu nodi anawsterau cyfathrebu oherwydd efallai na fydd plant bob amser yn dweud eu bod yn cael trafferth.

Negeseuon allweddol

4.37. Mae'r adroddiad yn dangos bod cysylltiad dwfn rhwng lleferydd, iaith a chyfathrebu a bywydau bob dydd plant. Nid yw plant yn gweld cyfathrebu fel siarad neu ddysgu geiriau yn unig. Maent yn ei weld fel rhan o gyfeillgarwch, bywyd teuluol, chwarae, dysgu, mynegiant emosiynol, diogelwch a pherthyn.

4.38. Mae'r ymgysylltu hefyd yn dangos y gall anawsterau cyfathrebu fod yn gudd. Gall plant ddangos anesmwythder drwy ymddygiad, tawelwch, mynd i'w cragen neu ddefnyddio'r cerdyn “Dw i ddim eisiau siarad”, yn hytrach nag esbonio'n agored eu bod yn cael trafferth. Mae hyn yn amlygu'r angen i oedolion nodi ymddygiad dieiriau fel cyfathrebu ac ymateb yn sensitif.

4.39. Mae plant yn gwerthfawrogi cymorth gan bobl sy'n eu hadnabod, yn gwrando arnynt ac yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Maent am i oedolion esbonio pethau'n glir, rhoi amser iddynt, defnyddio dulliau gwahanol lle bo angen a thawelu eu meddyliau.

4.40. Mae'r canfyddiadau'n cefnogi cyfeiriad Cynllun Cyflawni Cam 2 Siarad Gyda Fi. Maent yn dangos pwysigrwydd nodi cynnar, perthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt, arfer cynhwysol, oedolion medrus a chymorth hyblyg sy'n ymateb i anghenion pob plentyn.

4.41. At ei gilydd, mae'r adroddiad yn dangos bod plant a phobl ifanc yn rhoi gwerth mawr ar gyfathrebu ac yn cydnabod pwysigrwydd helpu'r rhai sy'n profi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae eu barn yn rhoi cefnogaeth glir i ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn gynhwysol ac yn seiliedig ar berthnasoedd ar gyfer cam nesaf Siarad Gyda Fi.

5. Ymateb y Mentoriaid Cymunedol

Cyflwyniad

5.1. Mae'r adran hon yn crynhoi cyflwyniad ar y cyd gan naw Mentor Cymunedol a gyflogir gan Lywodraeth Cymru yn rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd y cyflwyniad yn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ar leferydd, iaith a chyfathrebu.

C1: Ydych chi'n cytuno â'r datganiad - mae'r enw 'Siarad gyda fi - Cam 2' yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i gwmpasu ymestyn y gwaith hwn i blant rhwng 5 ac 11 oed. Os na, allwch chi awgrymu rhywbeth arall?

5.2. Rhoddodd yr ymatebwyr farn gymysg ar yr enw *Siarad Gyda Fi - Cam 2.* Roedd rhai'n teimlo ei fod yn glir, yn syml ac yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn adeiladu ar raglen sydd eisoes yn hysbys i ymarferwyr, teuluoedd a phartneriaid. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd o'r farn nad yw'r enw'n dangos yn glir bod y rhaglen bellach yn cynnwys plant 5 i 11 oed. Roedd yr ymadrodd "Cam 2" yn cael ei weld yn fwy ystyrlon i weithwyr proffesiynol nag i deuluoedd, ac roedd rhai'n teimlo efallai na fydd rhieni'n deall ar unwaith bod y rhaglen yn ymwneud â lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

5.3. Roedd pryder hefyd y gallai'r gair "siarad" awgrymu ffocws cul ar iaith lafar. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod cyfathrebu'n cynnwys ystumiau, mynegiannau'r wyneb, arwyddion, synau, cyfathrebu drwy chwarae, hunansiarad, cyfathrebu cyn-eiriol a mynegiant dieiriau. Roedd hyn yn cael ei weld yn bwysig i blant niwrowahanol a phlant sy'n cyfathrebu'n wahanol.

5.4. Ymhlith y dewisiadau eraill a awgrymwyd roedd *Siarad Gyda Fi: Lleisiau'n Tyfu (0–11), Siarad Gyda Fi: Blynyddoedd Cynnar a Chynradd, Siarad Gyda Fi: Tyfu Gyda'n Gilydd (0–11) a Siarad Gyda Fi Cymru 0–11.*

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 1) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

5.5. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roeddent yn cytuno y gallai mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, gofalwyr, ymarferwyr a chymunedau gefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynharach ac annog teuluoedd i geisio cymorth yn gynt.

5.6. Roedd cefnogaeth i ymgyrch ddwyieithog genedlaethol, gwybodaeth gliriach i deuluoedd a deunyddiau sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen negeseuon ymarferol ar deuluoedd ynghylch sut y gall rhyngweithio bob dydd, gan gynnwys siarad, gwrando, chwarae, canu, darllen a chymryd tro, gefnogi cyfathrebu.

5.7. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i waith codi ymwybyddiaeth fod yn gynhwysol, yn sensitif yn ddiwylliannol ac yn wrth-hiliol. Dylai deunyddiau adlewyrchu gwahanol ieithoedd, acenion, arddulliau magu plant, strwythurau teuluol a normau cyfathrebu. Dylai adnoddau fod yn hygyrch i deuluoedd nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf, a dylid cydnabod amlieithrwydd fel cryfder.

5.8. Argymhellodd yr ymatebwyr ddull aml-sianel, gan gynnwys fideos byr, clipiau cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau gweledol, codau QR, negeseuon testun, sesiynau cymunedol a sgyrsiau wyneb yn wyneb. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar ei phen ei hun yn cael ei gweld yn annigonol, yn enwedig i deuluoedd â llythrennedd cyfyngedig, Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig, allgáu digidol neu ymddiriedaeth isel mewn gwasanaethau ffurfiol.

5.9. Roedd pwyslais cryf hefyd ar gyrraedd teuluoedd drwy lwybrau cymunedol y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys grwpiau ffydd, sefydliadau diwylliannol, rhwydweithiau mewnfudwyr, ymwelwyr iechyd, practisau meddygon teulu, llyfrgelloedd, archfarchnadoedd, ysgolion a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Codwyd effaith amser o flaen sgrin hefyd, gydag ymatebwyr yn awgrymu y dylai teuluoedd gael canllawiau clir, anfeirniadol ar sut y gall

gormod o amser o flaen sgrin leihau cyfleoedd i ryngweithio, chwarae, gwrando a chyfathrebu.

5.10. Rhybuddiodd yr ymatebwyr na fydd codi ymwybyddiaeth ar ei ben ei hun yn gwella canlyniadau oni bai ei fod yn gysylltiedig â chymorth ymarferol, llwybrau clir a chapasiti digonol o ran gwasanaethau.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 2) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

5.11. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn fras y byddai gwella'r broses o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cefnogi gwell canlyniadau. Roeddent yn croesawu prosesau nodi cyson, canllawiau a rennir, offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a monitro ar gamau datblygu allweddol.

5.12. Roedd nodi cynnar yn cael ei weld yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Nododd yr ymatebwyr fod ymarferwyr ym meysydd iechyd, gofal plant ac addysg mewn sefyllfa dda i sylwi ar anghenion cyfathrebu posibl, ond roeddent hefyd yn cydnabod bod staff yn aml dan bwysau ac efallai na fydd ganddynt bob amser yr amser na'r wybodaeth arbenigol i fynd ar drywydd pryderon.

5.13. Un thema fawr oedd y risg o duedd wrth nodi anghenion. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i offer a phrosesau asesu fod yn ymatebol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Rhybuddiwyd y gallai anghenion plant amlieithog gael eu nodi'n anghywir os cânt eu hasesu drwy normau'r Gymraeg neu'r Saesneg yn unig. Er enghraifft, gallai plant sy'n dal i ddatblygu Cymraeg neu Saesneg gael eu hystyried ar gam fel rhai sydd ag oedi, tra gallai plant sy'n defnyddio ieithoedd y cartref, tafodieithoedd, acenion neu newid cod gael eu camddeall. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylid cydnabod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel asedau, nid diffygion. Mae angen hyfforddiant ar ymarferwyr i wahaniaethu rhwng gwahaniaeth iaith, oedi iaith, anhwylder iaith a datblygiad dwyieithog arferol. Dylai'r broses nodi gynnwys

rhieni, a all roi gwybodaeth bwysig am sut mae plant yn cyfathrebu yn iaith y cartref ac mewn lleoliadau cyfarwydd.

5.14. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai offer ystyried Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd cymunedol eraill a siaredir yn gyffredin yng Nghymru, ac y dylai arbenigwyr iaith a lleferydd weithio gyda staff Saesneg fel iaith ychwanegol, cyfieithwyr ar y pryd, aseswyr dwyieithog ac ymarferwyr ieithoedd cymunedol.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymwyd o wella'r cymorth i'r rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 3) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

5.15. Roedd yr ymatebwyr at ei gilydd yn cefnogi gwella'r cymorth i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys adolygu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant 5 oed a throsodd, mapio'r ddarpariaeth bresennol a chryfhau cymorth ar draws ysgolion a gwasanaethau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yn rhaid i gymorth fod yn gynhwysol yn ddiwylliannol, yn briodol yn ieithyddol ac yn hygyrch i bob teulu. Dylai ymyriadau adlewyrchu profiadau plant o gefndiroedd mewnfudwyr, amlieithog ac amrywiol eu diwylliant, a dylent roi gwerth ar ieithoedd cartref plant a phatrymau cyfathrebu teuluoedd.

5.16. Cwestiynodd rhai o'r ymatebwyr sut y byddai tystiolaeth yn cael ei diffinio, ac a fyddai'n cynnwys dulliau a arweinir gan ymarferwyr, a lywir gan y gymuned neu sy'n seiliedig ar ymarfer, a allai weithio'n dda mewn cymunedau difreintiedig yn gymdeithasol, gwledig neu leiafrifol. Roedd enghreifftiau ac offer ymarferol yn cael eu gweld yn arbennig o bwysig i deuluoedd. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am aseswyr dwyieithog a chyfieithwyr ar y pryd hyfforddedig sy'n ymwybodol o leferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn helpu i osgoi camddiagnosis ac yn cefnogi asesu tecach i blant dwyieithog ac amlieithog.

5.17. Roedd llwyth gwaith a chapasiti yn bryderon cyson. Rhybuddiodd yr ymatebwyr y bydd angen amser, cyllid, mewnbwn arbenigol ac adnoddau ar

ysgolion a lleoliadau i ddarparu cymorth yn effeithiol, yn enwedig o ystyried y pwysau presennol ar athrawon a staff addysg.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu arfaethedig i uwchsgilio'r gweithlu i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 4) yn arwain adnabod anghenion yn well a chymorth gwell?

5.18. Roedd cefnogaeth gref i uwchsgilio'r gweithlu. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen y wybodaeth, yr offer a'r hyder ar staff ar draws gofal plant, gwaith chwarae, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol i nodi anghenion yn gynnar ac ymateb yn effeithiol. Roedd hyfforddiant yn cael ei weld yn bwysig nid yn unig i athrawon a staff ysgolion, ond hefyd i ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr cymunedol. Nododd yr ymatebwyr y gallai gwahanol leoliadau arsylwi gwahanol agweddau ar gyfathrebu plentyn.

5.19. Un o'r themâu canolog oedd bod yn rhaid i hyfforddiant y gweithlu gynnwys cymhwysedd diwylliannol, arfer gwrth-hiliol a dealltwriaeth o ddatblygiad amlieithog. Dylai staff ddeall sut mae normau cyfathrebu'n amrywio ar draws teuluoedd a chymunedau, a sut y gall tuedd effeithio ar benderfyniadau atgyfeirio ac asesu.

5.20. Dadleuodd yr ymatebwyr hefyd na fydd uwchsgilio'r staff presennol yn ddigon os nad oes digon o bobl ar gael i ddarparu cymorth. Argymhellwyd cynyddu capasiti'r gweithlu, gan gynnwys ymarferwyr dwyieithog a staff arbenigol. Argymhellwyd hefyd sefydlu rhagor o grwpiau cyfathrebu cynnar yn y gymuned, fel sesiynau “Tiny Talkers”, fel mannau cyffredinol sy'n seiliedig ar chwarae lle gall rhieni ddysgu strategaethau ymarferol a lle gall plant ryngweithio â'u cyfoedion.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir o ymgorffori cymorth ataliol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar draws Cymru (amcan 5) yn helpu i hwyluso gwell canlyniadau i fabanod a phlant?

5.21. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai ymgorffori cymorth ataliol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru yn helpu i wella canlyniadau. Roeddent yn croesawu'r uchelgais i greu cymorth mwy cydgysylltiedig ar draws iechyd meddwl, llesiant, llythrennedd, Anghenion Dysgu Ychwanegol, cyfiawnder a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yn rhaid i gymorth ataliol fod yn gynhwysol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol a chyrraedd teuluoedd o wahanol gefndiroedd. Disgrifiwyd rhieni a gofalwyr fel rhai canolog i atal, ac roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r cynllun roi mwy o bwyslais ar gefnogi teuluoedd i ddefnyddio strategaethau ymarferol gartref.

5.22. Ymhlith y dulliau a awgrymwyd roedd canllawiau ynghylch amser o flaen sgrin, chwarae, darllen, trefn ddyddiol a rhyngweithio, yn ogystal ag ymgysylltu â rhieni yn fwy rheolaidd ac anffurfiol drwy ysgolion a lleoliadau cymunedol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys sesiynau ystafell ddosbarth agored, ymweliadau gan rieni a chyfleoedd anffurfiol i ymarferwyr rannu cyngor.

5.23. Nodwyd mai cyllid oedd un o'r rhwystrau mawr. Rhybuddiodd yr ymatebwyr, heb gapasiti digonol o ran y gweithlu ac adnoddau, efallai na fydd modd cyflawni dulliau ataliol yn ymarferol.

Cwestiwn 7: Ar wahân i'r 5 amcan a awgrymir ar hyn o bryd yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw amcanion eraill y dylem eu cynnwys?

5.24. Awgrymodd yr ymatebwyr ychwanegu amcan cliriach ar rymuso teuluoedd a chymunedau, yn enwedig ar gyfer cymunedau diwylliannol ac amlieithog amrywiol. Byddai hyn yn cydnabod rôl teuluoedd, grwpiau ffydd, rhwydweithiau diwylliannol a sefydliadau cymunedol wrth gefnogi cyfathrebu plant.

5.25. Ymhlith yr elfennau a awgrymwyd roedd adnoddau sy'n berthnasol yn ddiwylliannol, gweithio gydag arweinwyr cymunedol, canllawiau ar ddatblygiad amlieithog yn y cartref, a gweithdai cymunedol neu sesiynau ar-lein. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydynt

efallai'n ymgysylltu'n hawdd â gwasanaethau ffurfiol oherwydd rhwystrau iaith, disgwyliadau diwylliannol neu ddiffyg cynefindra â'r system yng Nghymru.

5.26. Ymhlith y meysydd eraill a awgrymwyd roedd ymgysylltu cryfach â rhieni, cymorth digidol a thechnolegol, monitro a gwerthuso, cymorth pontio rhwng y blynyddoedd cynnar, addysg gynradd ac uwchradd, a rhoi mwy o ystyriaeth i blant a rhieni ag ADHD, awtistiaeth, anawsterau iechyd meddwl neu anghenion ychwanegol eraill. Galwodd yr ymatebwyr hefyd am fwy o gydnabyddiaeth i chwarae a hawl y plentyn i chwarae.

5.27. Amcan arall a gynigiwyd oedd cynyddu'r gweithlu, yn hytrach na dibynnu ar uwchsgilio'r staff presennol yn unig.

Cwestiwn 8: Ar wahân i'r camau gweithredu arfaethedig a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw gamau eraill y dylem eu cynnwys?

5.28. Awgrymodd yr ymatebwyr gamau gweithredu ychwanegol i wneud y cynllun yn fwy cynhwysol ac ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu adnoddau cynhwysol yn ddiwylliannol ac amlieithog, partneru â grwpiau ffydd a chymdeithasau diwylliannol, ac ymgymryd ag allgymorth wedi'i dargedu gyda chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

5.29. Roedd cefnogaeth hefyd i hyfforddiant parhaus i'r gweithlu mewn cymhwysedd diwylliannol ac arfer gwrth-hiliol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau mynediad teg at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a lleihau'r risg y caiff plant eu camddeall neu y caiff eu hanghenion eu nodi'n anghywir.

5.30. Codwyd hygyrchedd hefyd. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai adnoddau a chymorth fod yn addas i blant a rhieni ag ADHD, awtistiaeth, anawsterau iechyd meddwl, llythrennedd cyfyngedig neu anhawster o ran ymgysylltu â gwybodaeth ysgrifenedig hir.

5.31. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd chwarae, gydag ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cynllun hyrwyddo rôl chwarae wrth gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu a chysylltu hyn â hawliau plant.

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori (i hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru) ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.32. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi pwysigrwydd peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roeddent yn teimlo y gallai'r amcanion gael effaith gadarnhaol pe bai adnoddau, hyfforddiant, offer asesu ac ymyriadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a phe bai darpariaeth Gymraeg yn hygyrch ym mhob rhanbarth.

5.33. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai'r Gymraeg fod yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi ac yn cael ei normaleiddio drwy arwyddion dwyieithog, adnoddau gweledol, chwarae, straeon a rhyngweithio bob dydd. Dylai hyfforddiant gynnwys strategaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r Gymraeg fel bod plant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael cymorth cyson.

5.34. Ar yr un pryd, pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai cymorth i'r Gymraeg fynd law yn llaw â pharch at holl ieithoedd y cartref. Roeddent yn dadlau y dylid cydnabod hunaniaeth, perthyn, diwylliant ac iaith plant, gan gynnwys pan nad Cymraeg na Saesneg yw iaith cartref y plentyn. Ni ddylid gweld amlieithrwydd fel problem, a dylid cefnogi plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu cryf yn iaith y cartref yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg.

Cwestiwn 10: A ellid newid yr amcanion arfaethedig er mwyn cael effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg, neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

5.35. Awgrymodd yr ymatebwyr mai darpariaeth ddwyieithog ddylai fod y drefn ddiofyn. Dylai'r holl adnoddau lleferydd, iaith a chyfathrebu, ymyriadau, offer asesu a hyfforddiant y gweithlu fod ar gael ac yn weladwy yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5.36. Awgrymwyd hefyd y dylai ymarferwyr gael eu hyfforddi i gefnogi plant sy'n siarad Cymraeg, plant dwyieithog a phlant amlieithog, ac i wahaniaethu rhwng gwahaniaethau iaith ac anghenion iaith. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw plant yn cael eu digalonni rhag addysg cyfrwng Cymraeg nac yn cael eu nodi ar gam fel rhai ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu am eu bod yn datblygu mwy nag un iaith.

5.37. Roedd yr awgrymiadau ymarferol yn cynnwys sbardunau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg gartref, fideos byr, sesiynau cymunedol ac adnoddau sy'n helpu teuluoedd, gan gynnwys teuluoedd mewnfudwyr, i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ochr yn ochr â'r Saesneg ac ieithoedd y cartref. Argymhellwyd hefyd y dylid monitro'r defnydd a'r canlyniadau yn ôl ethnigrwydd, cefndir iaith a rhanbarth.

Cwestiwn 11: A ellid newid yr amcanion arfaethedig er mwyn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, ar hawliau plant?

5.38. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r amcanion hyrwyddo hawliau plant yn well drwy gynnal yn fwy penodol hawliau plant i gyfathrebu, cyfranogi, triniaeth gyfartal, hunaniaeth ddiwylliannol a chymorth yn iaith y cartref. Roedd dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael ei gysylltu â chynhwysiant ac arfer gwrth-hiliol. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylai pob plentyn, waeth beth fo'i ethnigrwydd, ei gefndir iaith, ei statws mewnfudo, ei anabledd, ei niwrowahaniaeth neu amgylchiadau ei deulu, allu cael mynediad at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu teg a phriodol.

5.39. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd hawl y plentyn i fynegi ei hun yn y ffordd sy'n gweithio orau iddo. Mae hyn yn cynnwys iaith lafar, iaith y cartref, Cymraeg, Saesneg, arwyddion, ystumiau, darlunio, cyfathrebu drwy chwarae, offer cynorthwyol a mathau eraill o fynegiant. Dylid clywed lleisiau plant hefyd wrth lunio cymorth.

Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol

5.40. Yn eu sylwadau terfynol, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am y cynigion, ond ailadroddwyd mai'r gweithredu fydd yn allweddol. Dim ond os caiff staff eu hyfforddi, os gall teuluoedd gael gafael ar gymorth, os yw prosesau asesu'n deg, ac os oes digon o gapasiti yn y gweithlu i ateb y galw y bydd y cynllun yn gwneud gwahaniaeth.

5.41. Y thema derfynol gryfaf oedd yr angen i wneud cymhwysedd diwylliannol, arfer gwrth-hiliol a chynhwysiant ieithyddol yn fwy eglur drwy'r cynllun cyfan. Dylai hyn fod yn berthnasol i godi ymwybyddiaeth, asesu, ymyrraeth, hyfforddiant y gweithlu, darpariaeth Gymraeg, hawliau plant, monitro a gwerthuso.

5.42. Tynnodd sawl ymatebydd sylw hefyd at brofiadau personol neu broffesiynol o anhawster wrth gael gafael ar gymorth, gan gynnwys oedi cyn ymyrraeth, staff yn betrus i godi pryderon gyda rhieni, plant yn cael eu monitro am gyfnod rhy hir, a rhieni'n ansicr a ddylent ofyn am help. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhaglen sgrinio fwy systematig a sesiynau gwybodaeth mewn ysgolion i rieni dan arweiniad gweithwyr proffesiynol iaith a lleferydd.

6. Argymhellion gan yr ymatebwyr

6.1. Mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i ehangu'r rhaglen i gynnwys plant 5-11 oed, gwerthfawrogiad o frand Siarad Gyda Fi; a chefnogaeth i'r holl amcanion yn yr ymgynghoriad. Yn seiliedig ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, mae'r argymhellion allweddol gan yr ymatebwyr yn cynnwys y pwyntiau canlynol.

6.2. **A1: Cadw brand Siarad Gyda Fi ond egluro'r ystod oedran a'r cwmpas**. Dylid cadw'r enw Siarad Gyda Fi oherwydd ei fod yn cael ei adnabod ac yn cael cefnogaeth eang, ond dylid diwygio'r teitl i'w gwneud yn glir bod Cam 2 yn cynnwys plant 5 i 11 oed. Dylid ystyried teitl fel Siarad Gyda Fi: 0 i 11 oed neu Siarad Gyda Fi: Cefnogi Cyfathrebu drwy'r Blynyddoedd Cynnar a Chynradd. Dylai'r iaith a ddefnyddir ei gwneud yn glir hefyd bod y rhaglen yn cwmpasu pob math o leferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu dieiriau, Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen, arwyddo, cyfathrebu dwyieithog a mathau eraill o fynegiant.

6.3. **A2: Datblygu cynllun gweithredu cenedlaethol clir gyda cherrig milltir.** Dylai'r cynllun cyflawni gael ei ategu gan gynllun gweithredu manwl yn nodi beth fydd yn cael ei gyflawni, gan bwy, erbyn pryd a chyda pha adnoddau. Dylai hyn gynnwys cyfrifoldebau cenedlaethol a lleol, cerrig milltir, pwyntiau adolygu a llwybrau clir ar gyfer adrodd ar gynnydd. Cefnogodd yr ymatebwyr uchelgais y cynllun dro ar ôl tro, ond pwysleisiwyd bod angen troi ymrwymiadau eang yn gamau gweithredu ymarferol.

6.4. **A3: Sicrhau bod cymorth ymarferol yn cyd-fynd â chodi ymwybyddiaeth.** Dylai codi ymwybyddiaeth barhau'n amcan allweddol, ond ni ddylid ei drin fel rhywbeth digonol ar ei ben ei hun. Dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol fod yn gysylltiedig â chyngor clir, llwybrau atgyfeirio, adnoddau hygyrch a chymorth uniongyrchol i deuluoedd, ysgolion a lleoliadau. Dylai negeseuon gyrraedd y tu hwnt i wasanaethau statudol i

leoliadau cymunedol, gan gynnwys gofal plant, clybiau chwaraeon, lleoliadau hamdden, darpariaeth ieuenctid a gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

6.5. **A4: Cyflwyno dull cyson Cymru gyfan o nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.**
Dylid datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar draws y blynyddoedd cynnar a phlant oedran cynradd. Dylai hyn gynnwys offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, barn broffesiynol, arsylwi a chanllawiau clir ar gyfer pwyntiau pontio allweddol, gan gynnwys dechrau yn yr ysgol a symud drwy'r ysgol gynradd. Dylai'r dull leihau amrywiad rhwng ardaloedd lleol wrth ganiatáu hyblygrwydd i ymateb i anghenion lleol.

6.6. **A5: Sicrhau bod nodi anghenion yn arwain at gymorth amserol.**
Rhaid i'r broses well o nodi anghenion gael ei hategu gan gapasiti i ymateb. Dylai'r cynllun osgoi creu galw ychwanegol heb gymorth digonol, gan y gallai hyn gynyddu'r pwysau ar ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau therapi iaith a lleferydd. Dylai llwybrau clir ddangos pa gymorth sydd ar gael ar lefel gyffredinol, wedi'i thargedu ac arbenigol, a sut y gall plant a theuluoedd gael gafael arno heb oedi diangen.

6.7. **A6: Cryfhau'r model cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol.**
Dylai'r cynllun roi canllawiau cliriach ar sut y dylai cymorth cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol edrych yn ymarferol. Dylai darpariaeth gyffredinol gynnwys amgylcheddau sy'n cefnogi cyfathrebu, gan gynnwys o fewn cymunedau a theuluoedd, addysgu geirfa'n benodol, cymhorthion gweledol, rhyngweithio cyfoethog o ran iaith ac arferion ystafell ddosbarth sy'n ystyriol o gyfathrebu. Dylai darpariaeth wedi'i thargedu gynnwys cymorth strwythuredig wedi'i lywio gan dystiolaeth a monitro cynnydd. Rhaid i ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, barhau i fod ar gael i blant ag anghenion cymhleth, parhaus neu arbenigol.

6.8. **A7: Buddsoddi yng nghapasiti'r gweithlu a dysgu proffesiynol parhaus.**
Dylai datblygu'r gweithlu fod yn rhan ganolog o'r gweithredu. Dylai hyfforddiant fod yn ymarferol, wedi'i lywio gan dystiolaeth ac yn berthnasol i

wahanol rolau ar draws addysg, iechyd, gofal plant, cymorth i deuluoedd, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymunedol. Ni ddylai ddibynnu ar sesiynau hyfforddiant untro, ond dylai gynnwys hyfforddi, modelu, mentora, ymarfer myfyriol a sesiynau gloywi rheolaidd. Bydd angen amser wedi'i neilltuo a chyllid fel y gall staff gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon.

6.9. **A8: Osgoi gorddibynnu ar ysgolion a lleoliadau heb adnoddau ychwanegol.**

Dylai'r cynllun gydnabod y pwysau presennol ar ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar a gwasanaethau arbenigol. Dylai unrhyw ddisgwyliadau ychwanegol fynd law yn llaw â chyllid, capasiti staffio, mynediad at gyngor arbenigol ac asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith. Heb hyn, mae risg y gallai'r cynllun gynyddu'r pwysau ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau ac arwain at weithredu anghyson.

6.10. **A9: Ymgorffori darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o'r cychwyn.**

Dylid cynnwys ystyriaethau'r Gymraeg a dwyieithrwydd ym mhob amcan, yn hytrach na'u hychwanegu'n ddiweddarach. Dylid datblygu offer, hyfforddiant, adnoddau, deunyddiau codi ymwybyddiaeth, dulliau asesu ac ymyriadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, a rhoi statws cyfartal iddynt. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys camau gweithredu i gryfhau capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rhagor o therapyddion iaith a lleferydd sy'n siarad Cymraeg ac ymarferwyr sy'n gallu nodi a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

6.11. **A10: Gwella tegwch mynediad ledled Cymru.**

Dylai'r cynllun gynnwys camau gweithredu penodol i leihau anghydraddoldebau rhanbarthol, economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol o ran mynediad at gymorth. Dylai hyn gynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu mewn ardaloedd difreintiedig, arfer sy'n ymatebol yn ddiwylliannol, dulliau gwrth-hiliol, cymorth i deuluoedd amlieithog a monitro mynediad a chanlyniadau yn ôl ardal, iaith, cefndir ac angen. Ni ddylai plant gael lefelau gwahanol o gymorth oherwydd ble maent yn byw, pa iaith y maent yn ei defnyddio, na pha leoliad y maent yn ei fynychu.

6.12. **A11: Cynnwys camau gweithredu cryfach ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sefydledig, parhaus neu gymhleth.**
Er bod atal yn bwysig, dylai'r cynllun hefyd roi digon o sylw i blant sydd eisoes ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys plant ag anhwylder datblygu iaith, plant niwrowahanol, plant sy'n defnyddio Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen, plant ag anghenion cyfathrebu dieiriau, plant sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, plant mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid, a phlant â thrawma, profiad o fod mewn gofal neu darfu ar eu haddysg. Dylai'r ffocws gynnwys lleihau effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, nid yn unig atal anawsterau rhag dod i'r amlwg.

6.13. **A12: Cryfhau llwybrau amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth.**
Dylai'r cynllun nodi trefniadau cliriach ar gyfer cydweithio rhwng iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, gofal plant, y blynyddoedd cynnar, ADY, iechyd meddwl, llythrennedd, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Dylai hyn gynnwys rhannu data, llwybrau atgyfeirio, cydgynllunio a threfniadau pontio fel nad yw plant yn syrthio drwy'r bylchau rhwng gwasanaethau.

6.14. **A13: Gwella cymorth pontio.**
Dylid ystyried lleferydd, iaith a chyfathrebu ar bwyntiau pontio allweddol, gan gynnwys dechrau mewn gofal plant neu ysgol, symud rhwng grwpiau blwyddyn, symud rhwng ysgolion, pontio i addysg uwchradd a newidiadau rhwng gwasanaethau. Dylai cynllunio pontio gynnwys rhannu gwybodaeth, paratoi ar gyfer gofynion cyfathrebu newydd a pharhad cymorth i blant ag anghenion parhaus.

6.15. **A14: Rhoi hawliau plant a lleisiau plant wrth wraidd y gweithredu.**
Dylai'r cynllun adlewyrchu hawliau plant yn benodol, gan gynnwys yr hawl i gael eu clywed, i gyfranogi, i gael mynediad at addysg ac i gael cymorth heb wahaniaethu. Dylai plant, gan gynnwys y rhai 5 i 11 oed a'r rhai ag anghenion cyfathrebu, gael cyfleoedd strwythuredig i lunio'r gweithredu, yr adnoddau, y

brandio a'r gwerthuso. Dylai dulliau ymgysylltu gynnwys ffyrdd dieiriau, creadigol a hygyrch i blant fynegi eu barn.

6.16. **A15: Cryfhau ymgysylltu â theuluoedd a gwybodaeth hygyrch.**
Dylid cefnogi teuluoedd a gofalwyr fel partneriaid allweddol yn natblygiad cyfathrebu plant. Dylai'r cynllun gynnwys canllawiau hygyrch i deuluoedd ar ddatblygiad cyfathrebu arferol, arwyddion o angen posibl, sut i gefnogi cyfathrebu gartref a ble i gael help. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn sawl iaith, fformat a lefel hygyrchedd, a dylid ei chynllunio gyda theuluoedd o gymunedau amrywiol.

6.17. **A16: Defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhannu'r hyn sy'n gweithio.**
Dylai'r cynllun roi canllawiau cliriach ar ymyriadau wedi'u llywio gan dystiolaeth a sut y gellir eu hymgorffori mewn ymarfer bob dydd. Dylid adolygu rhaglenni presennol ac enghreifftiau lleol o arfer effeithiol, ond dylai hyn arwain at ganllawiau ymarferol, adnoddau a chymorth gweithredu. Dylid addasu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn briodol yn ôl oedran, iaith, lleoliad a lefel yr angen.

6.18. **A17: Datblygu fframwaith data, monitro a gwerthuso cenedlaethol.**
Dylid sefydlu fframwaith cenedlaethol clir i fesur cynnydd ac effaith. Dylai hyn gynnwys mesurau o gyffredinrwydd, nodi anghenion, mynediad at gymorth, amseroedd aros, ymyrraeth, cynnydd, canlyniadau, datblygu'r gweithlu ac amrywiad ar draws ardaloedd a grwpiau. Dylai adborth ansoddol gan blant, teuluoedd ac ymarferwyr ategu'r data meintiol.

6.19. **A18: Sicrhau bod Cam 2 Siarad Gyda Fi yn cyd-fynd â diwygiadau polisi a gwasanaethau ehangach.**
Dylai'r cynllun gyd-fynd yn glir â'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhaglenni'r blynyddoedd cynnar, polisi'r Gymraeg, polisi llesiant, cymorth iechyd meddwl, strategaethau llythrennedd a blaenoriaethau atal ehangach. Byddai hyn yn lleihau dyblygu, yn cefnogi cydlyniant ac yn

helpu ymarferwyr i ddeall sut mae Siarad Gyda Fi yn cyd-fynd â chyfrifoldebau presennol.

6.20. **A19: Cadw'r ffocws ar y blynyddoedd cynnar wrth ymestyn i blant 5 i 11 oed.**
Mae cefnogaeth gref i'r estyniad i blant oedran cynradd, ond ni ddylai wanhau'r cymorth presennol i fabanod a phlant 0 i 5 oed. Dylai'r cynllun ei gwneud yn glir sut y caiff gwaith y blynyddoedd cynnar ei gynnal wrth i'r cymorth gael ei ehangu ar draws y blynyddoedd cynradd.

6.21. **A20: Cydgynhyrchu brandio a deunyddiau'r dyfodol â phlant a theuluoedd.**
Ymatebodd y rhan fwyaf o'r plant yn gadarnhaol i'r brandio presennol, ond roedd rhai plant hŷn yn teimlo y gellid addasu'r deunyddiau'n well ar gyfer eu grŵp oedran. Dylid cyd-ddylunio adnoddau'r dyfodol ar gyfer plant oedran cynradd â phlant, gan gynnwys y rhai ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, dysgwyr cyfrwng Cymraeg a phlant o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol amrywiol.

6.22. **A21: Cryfhau allgymorth dan arweiniad y gymuned a grymuso teuluoedd.**
Dylai'r cynllun gynnwys argymhelliad cliriach i weithio drwy lwybrau cymunedol y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys Mentoriaid Cymunedol, grwpiau ffydd, cymdeithasau diwylliannol, rhwydweithiau mewnfudwyr, llyfrgelloedd, gwasanaethau iechyd, ysgolion a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Byddai hyn yn helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydynt efallai'n ymgysylltu'n rheolaidd â gwasanaethau statudol ac yn cefnogi negeseuon sy'n berthnasol yn ddiwylliannol am ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

6.23. **A22: Cryfhau prosesau nodi a chymorth sy'n ymatebol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol.**
Dylai asesu, nodi ac ymyrraeth gydnabod yn benodol ieithoedd y cartref, datblygiad amlieithog, acenion, tafodieithoedd, newid cod a gwahanol normau cyfathrebu diwylliannol. Dylai'r cynllun annog cydweithio rhwng arbenigwyr

iaith a lleferydd, staff Saesneg fel iaith ychwanegol, aseswyr dwyieithog, cyfieithwyr ar y pryd hyfforddedig ac ymarferwyr ieithoedd cymunedol er mwyn lleihau'r risg o nodi anghenion yn anghywir a sicrhau y caiff amlieithrwydd ei drin fel ased, nid diffyg.

6.24. **A23: Darparu canllawiau cliriach ar amser o flaen sgrin, chwarae a rhyngweithio bob dydd.**

Dylai gwaith codi ymwybyddiaeth gynnwys canllawiau ymarferol, anfeirniadol i deuluoedd ar sut y gall gormod o amser o flaen sgrin leihau cyfleoedd i ryngweithio, chwarae, gwrando, sylw a chyfathrebu. Dylai'r cynllun hefyd hyrwyddo cyfathrebu drwy chwarae, darllen, canu, trefn ddyddiol, cymryd tro a sgyrsiau bob dydd fel ffyrdd canolog o gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu gartref ac mewn lleoliadau cymunedol.

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr a roddodd gydsyniad i'w manylion gael eu cyhoeddi, wedi'i threfnu yn nhrefn yr wyddor yn ôl y sefydliadau, y lleoliadau neu'r proffesiynau y maent yn eu cynrychioli.*

Arweinydd Gweithredol Anghenion Dysgu Ychwanegol (y Gymraeg)
Blynyddoedd Cynnar Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Broffesiynol Coram ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cyngor Caerdydd - Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr
Cyngor y Gweithlu Addysg
Dechrau'n Deg Ynys Môn
Llais
Mudiad Meithrin
Plantos
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Prifysgol Bryste
Prifysgol Sheffield

*Lle defnyddiwyd acronymau, ychwanegwyd yr enw llawn.